# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG

## DYDD IAU, 1 RHAGFYR 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A.C. Jones (Chair) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
L. Davies, P. Hughes Griffiths

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
S.M. Allen, K.V. Broom, L.M. Davies, B.W. Jones, D. Jones, M.J.A. Lewis, S.L. Rees, E. Skinner, M. Thomas

**Aelodau Cyfetholedig (Yn y Siambr):**
A. Enoch, V. Kenny

**Aelodau Cyfetholedig (Yn rhithwir):**
F. Healey-Benson

**Roedd yr Aelodau Cabinet canlynol yn bresennol (Yn y Siambr):**
J. Tremlett, P.M. Hughes

**Roedd yr Aelodau Cabinet canlynol yn bresennol (Yn rhithwir):**
G. Davies

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol (Yn y Siambr):**
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
A. Rees, Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr
G. Adams, Prif Reolwr y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Cymryd Cofnodion)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol (Yn rhithwir):**
N. Daniel, Pennaeth Gwasanaethau TGCh a Pholisi Corfforaethol
S. Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg
A Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
J.G. Buck, Swyddog Perfformiad a Gwybodaeth
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr – Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1SP ac o bell – 2.00 – 3.45yp.**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan D. Elias. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod angen i'r Cynghorydd S. Rees adael y cyfarfod yn gynnar er mwyn cyflawni gwaith arall ar ran y Cyngor.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. CYNLLUN CYFIAWNDER IEUENCTID SIR GAERFYRDDIN 2022/2023

Cafodd Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Sir Gâr ar gyfer 2022/23 ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth a phartneriaeth a oedd wedi arwain at ddatblygu'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid, a nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, yn unol â gofynion deddfwriaethol Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

Roedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn amlinellu'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid a'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a ddarparwyd o dan un strwythur rheoli, a oedd yn darparu dull cyfannol o ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid ledled Sir Gaerfyrddin. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at adran 8 o'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid a oedd yn manylu ar berfformiad y bartneriaeth yn ystod 2021/22, a hefyd yn nodi'r blaenoriaethau a'r amcanion cynllunio gwelliannau am y flwyddyn i ddod, yn unol â'r egwyddorion 'plentyn yn gyntaf' cyffredinol ac ethos o welliant parhaus.

Cydnabu'r Pwyllgor waith hanfodol y bartneriaeth wrth geisio lliniaru effaith pandemig y coronafeirws er mwyn diogelu'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed a chymhleth ar draws y sir. Yn ogystal, dywedwyd bod sawl grŵp strategol wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r gofynion oedd yn gysylltiedig â lles plant ac oedolion agored i niwed.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:

Bu i'r Pwyllgor ganmol ymroddiad ac ymrwymiad parhaus staff y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yn ystod yr heriau welwyd adeg pandemig y coronafeirws.

Eglurwyd i'r Pwyllgor mai cynllun tu allan i'r llys oedd 'system Biwro' y sir, a oedd yn cael ei weithredu ar y cyd gan yr Awdurdod a'r Heddlu, ac mai ei fwriad oedd sicrhau ymyriadau cynnar fel nad oedd plant a phobl ifanc yn mynd i'r llys.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurwyd i'r aelodau fod y wybodaeth oedd ar ffurf graff ar dudalen 19 o'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid, ynghylch 'math o drosedd', wedi'i chrynhoi, ac felly byddai'r wybodaeth yn cael ei hailgyflwyno'n llawn i'r Pwyllgor. Rhoddwyd sicrwydd hefyd i'r Pwyllgor y byddai adroddiadau'r dyfodol yn cynnwys geirfa gynhwysfawr i egluro'r rhestr lawn o fyrfoddau, a byddai allweddi'n cael eu darparu i alluogi darllenwyr i ddehongli'r graffiau'n hwylus.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch yr heriau a ragwelwyd o ran cyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion helaeth oedd wedi'u pennu ar gyfer y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid yn 2022/23. Eglurwyd i'r Pwyllgor fod y blaenoriaethau'n

cyd-fynd yn strategol â disgwyliadau cenedlaethol, a'u bod yn unol â'r gofynion o ran adrodd am y prif ddangosyddion perfformiad. Pwysleisiwyd bod targedau uchelgeisiol wedi eu gosod er mwyn galluogi'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid i wneud pob ymdrech i sicrhau newid ystyrlon i blant a phobl ifanc yn y sir. Cyfeiriwyd hefyd at yr ymdrechion i hyrwyddo cyfranogi ac ymgysylltu cadarnhaol yn y dyfodol ar draws meysydd gwaith Cyfiawnder Ieuenctid, a byddai'r ffocws hwn yn cael ei gefnogi a'i gryfhau drwy weithredu strategaeth.

Mewn ymateb i ymholiad, roedd yn gysur i'r Pwyllgor gael clywed am yr amryw ddulliau, a gâi eu gweithredu drwy waith partneriaeth, a oedd yn mynd i'r afael ag ecsbloetio plant o ran gangiau a llinellau cyffuriau, a'r cysylltiadau â chyflenwi cyffuriau a thrais difrifol.

Yn dilyn ymholiad mewn perthynas â chyllid ar gyfer darparu gwasanaethau, roedd Prif Reolwr y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn falch o allu dweud y byddai'r cyfraniad ariannol i'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid yn cynyddu £20k ar gyfer 2022/23, a byddai dyraniadau grant pellach ar gyfer camau atal ac ymyriadau cynnar yn galluogi'r tîm i gynnal strwythur staffio sefydlog.

Cyfeiriwyd at faes blaenoriaeth 8, a oedd yn ymwneud â darparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Bu i Brif Reolwr y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid fanylu ar y mentrau recriwtio a hyfforddi a oedd yn sicrhau bod darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn rhywbeth oedd yn cael ei gynnal a'i gryfhau lle bo modd.

Cyfeiriwyd at y mesur perfformiad oedd yn ymwneud ag Iechyd Meddwl, lle rhoddodd Prif Reolwr y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid wybodaeth gefndirol am y dull adrodd a chadarnhau ei bod yn hyderus bod mynediad at y gwasanaethau iechyd meddwl wedi bod yn amserol ac yn effeithiol yn ystod y cyfnod adrodd.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Aelod, fe wnaeth Prif Reolwr y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid egluro i'r Pwyllgor, oherwydd cymhlethdod carfan fechan o ail-droseddwyr, y gallai'r cyfartaledd blynyddol amrywio'n sylweddol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Sir Gâr ar gyfer 2022/23 yn cael ei dderbyn.**

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN AR GYFER 2021/22

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol drafft y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2021/22 a oedd wedi ei lunio i fodloni'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd yr adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran 13 Amcan Llesiant y Cyngor yn erbyn cefndir o amgylchiadau digynsail yn sgil pandemig Covid-19, ynghyd â hunanasesiad y Cyngor yn erbyn gofynion perfformiad y flwyddyn ariannol flaenorol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai'r Adroddiad Blynyddol drafft yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu canlyniad y broses ymgynghori oedd yn ymwneud â gofynion perfformiad a nodwyd yn Atodiad 5C.

Ystyriwyd yr Amcanion Llesiant perthnasol oedd o fewn maes gorchwyl y pwyllgor, sef:

| | |
|---|---|
| AMCAN LLESIANT 1: | Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd. |
| AMCAN LLESIANT 2: | Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw. |
| AMCAN LLESIANT 3: | Cefnogi a gwella cynnydd, cyflawniad, a deilliannau i'r holl ddysgwyr. |
| AMCAN LLESIANT 4: | Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi. |
| AMCAN LLESIANT 12: | Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru. |

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:-

Mynegwyd pryder y gallai ffocws yr Awdurdod ar hyrwyddo'r Gymraeg; maes oedd eisoes yn perfformio'n dda, roi pwysau gormodol ar blant a'u teuluoedd mewn cyfnod o ansicrwydd yng nghyd-destun gofynion y flwyddyn academaidd oedd i ddod, o ystyried effaith y pandemig, gweithredu'r cwricwlwm newydd, a'r prinder adnoddau. Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg fod yr agenda ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg wedi ei gosod ar lefel genedlaethol drwy bolisi Llywodraeth Cymru.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y wybodaeth ar dudalen 87 o'r adroddiad, cadarnhawyd byddai'r geiriad yn cael ei adolygu oherwydd, er bo'r duedd hirdymor wedi gostwng, roedd y ffigwr ar gyfer 2021/22 yn gynnydd ar y flwyddyn flaenorol.

Cyfeiriwyd at y ffaith bod arian grant yr UE yn dod i ben a gofynnwyd am ddiweddariad am y ffrydiau cyllid eraill ar gyfer y Gwasanaethau Ieuenctid megis Cam Nesa, Cynnydd ac ymyriadau arddull NEET. Cadarnhawyd i'r Pwyllgor fod y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi dod yn lle arian grant yr UE, a'r disgwyl oedd y byddai oddeutu £38m yn dod i law Sir Gaerfyrddin i'w ddosbarthu i'r mannau yr oedd ei angen. Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr y gellid cael gafael ar ffigyrau er mwyn cymharu lefel arian grant yr UE â lefel arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Holodd Aelod pa gymorth oedd ar gael i ddiwallu anghenion y nifer cynyddol o blant oedd yn cael diagnosis o awtistiaeth, y cyfeirid ato yn Asesiad Llesiant 1. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant at heriau diwallu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol yng nghyd-destun y cyfyngiadau ariannol. Fodd bynnag, roedd buddsoddiad yn cael ei wneud i ddarparu amgylchedd diogel ar ffurf unedau arbenigol a gwasanaethau effeithiol.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch yr ystadegau gordewdra yn Amcan Llesiant 2 yr adroddiad, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod ffigyrau mwy diweddar yn ddisgwyliedig. Roedd yn cael ei gydnabod fod y

pandemig wedi amharu rhywfaint ar y gwelliannau wnaed yn y maes hwn dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly bernid bod iechyd a llesiant plant yn brif flaenoriaeth yn natblygiad strategaeth gorfforaethol yr Awdurdod.

Gofynnwyd am ddiweddariad ar adolygiad y grŵp gorchwyl a gorffen o ddyddiadau derbyn disgyblion i ysgolion ac ystodau oedran ar draws y sir. Cafodd y Pwyllgor wybod fod y mater wedi cael ei drafod yn ddiweddar yn y cam cyn-gabinet, lle cytunwyd byddai proses ymgynghori gynhwysfawr yn dechrau yn y flwyddyn newydd, a fyddai'n cynnwys argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen. Nodwyd na fyddai unrhyw ddiwygiadau i'r polisi derbyniadau yn dod i rym tan fis Medi 2024 man cynharaf.

Cyfeiriwyd at gyflwyno prydau ysgol am ddim yng Nghymru yn ddiweddar a mynegwyd pryderon na fyddai rhieni/gwarcheidwaid yn gwneud cais bellach am brydau ysgol am ddim, a fyddai'n cael effaith ar lefel y cyllid Grant Datblygu Disgyblion (PDG) y gallai'r ysgol ei gael. Cyfaddefodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod y PDG yn fesur pwysig i bob ysgol ledled Cymru er mwyn cefnogi plant agored i niwed, a rhoddwyd sicrwydd fod sylwadau wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ynghylch hynny. Rhoddwyd gwybod hefyd i'r aelodau am y gwaith parhaus o fewn yr Awdurdod i daclo tlodi yn y system addysg, a byddai rhagor o wybodaeth am hyn ar gael maes o law.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL argymell i'r Cabinet fod y fersiwn ddrafft o Adroddiad Blynyddol y Cyngor am 2021/22 yn cael ei gymeradwyo.**

## 6. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad craffu canlynol:

- Cefnogaeth i ddatblygu'r cwricwlwm ar draws yr ysgolion yn Sir Gaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad**.

## 7. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Adolygodd y Pwyllgor y rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn ei gyfarfod nesaf i'w gynnal ar 23 Ionawr 2023, a oedd wedi deillio o Flaengynllun Gwaith y Pwyllgor am 2022/2023. Pwysleisiwyd gan y Cadeirydd fod y Blaengynllun Gwaith yn ddogfen hyblyg y gellid ei diweddaru yn ôl y gofyn trwy gydol y flwyddyn wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg. O ganlyniad, byddai sesiwn arall i gynllunio'r Blaengynllun Gwaith yn cael ei threfnu faes o law i adolygu blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer 2022/23, yn unol â Blaengynllun Gwaith y Cabinet.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**7.1 Nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 23 Ionawr 2023.**

**7.2 Trefnu Sesiwn Cynllunio Blaengynllun Gwaith yn Neuadd y Sir,**

maes o law, i adolygu blaenoriaethau'r Pwyllgor, yn unol â Blaengynllun Gwaith y Cabinet.

**8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 06 HYDREF 2022**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2022 yn gofnod cywir.**

| | |
|---|---|
| ________________________ | ____________________ |
| **CHAIR** | **DATE** |